# Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Dyddiad:
**Dydd Iau, 27 Medi 2012**

Amser:
**14:00**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gareth Price**
Clerc y Pwyllgor
02920898409
FinanceCommittee@wales.gov.uk

## Agenda

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (14:00 - 14:05)

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Ann Jones.

### 2. Adolygu'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor ar gyfer cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2012-2013 (14:05 - 14:20)

2.1 Trafododd y pwyllgor argymhellion ei adroddiad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13 ac ymateb y Gweinidog Cyllid.

2.Cytunodd y pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am:

- nodyn yn egluro pam fod y Gweinidog wedi dewis rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor ar ffurf adroddiadau cwarterol;
- nodyn yn egluro rôl yr uned gyflawni.

### 3. Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol.

3.2 Nododd y pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i ardoddiad y pwyllgor, 'Pwerau benthyg a dulliau arloesol o ddefnyddio arian cyfalaf' a chytunodd i gynnal dadl ar yr adroddiad.

### 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y

**cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:**
Eitemau 5 i 7.

## 5. Ystyried yr adroddiad drafft ar effeithiolrwydd cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru (14:20 - 15:05)

5.1 Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft 'Effeithiolrwydd Cyllid Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru' ac awgrymodd welliannau.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor i ystyried yr adroddiad drafft ymhellach mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 6. Ystyried y diwygiadau a wnaed i gyllidebau 2011-2012 - adroddiad alldro (15:05 - 15:15)

6.1 Trafododd y Pwyllgor adroddiad alldro Llywodraeth Cymru ar gyfer 2011-2012 a chytunodd i ofyn am wybodaeth bellach gan y Gweinidog Cyllid.

## 7. Blaenraglen waith y Pwyllgor - Hydref 2012 (15:15 - 15:45)

7.1 Trafododd y Pwyllgor ei raglen waith ar gyfer tymor yr hydref 2012.